Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Rhagfyr 2014

Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Ar 1 Rhagfyr 2014, cafodd Bil Aelod, 'Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 11 Tachwedd 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 18 Tachwedd 2014, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 10 Ebrill 2015.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 5 Mehefin 2015, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.